

DOLEN Y TAB – 30

13–14 TACHWEDD 2020

OEDFA 15 TACHWEDD

Oedfa i'r Teulu cyfan gyda Heulyn, Catrin a rhai o'r Twmiaid.

OEDFAON GWEDDILL TACHWEDD

22 Emlyn Davies.

29 Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Ymunwch â'r Parchg. Carwyn Siddall, Llanuwchllyn, ar lan Llyn Tegid wrth iddo arwain oedfa arbennig ar gyfer Sul yr Urdd.

(Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a [YouTube](https://www.youtube.com))

11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Dan ofal y Parchg. Aled Edwards

12.00 Oedfa Radio Cymru

Dan arweiniad y Parchg. Carys Ann, Rhydlewis

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Bryisia Wella!

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellad buan i Geraint Rees sydd wedi dychwelyd gartref wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant ddechrau'r wythnos hon.

MÆ'R NADOLIG YN NESAU

A ninnau ar drothwy cyfnod yr Adfent pan fo'r trefniadau fel arfer ar gyfer ein gwasanaethau Nadolig yn cyrraedd eu hanterth, tristwch mawr yw sylweddoli na fyddwn yn medru cyd-ddathlu'r ŵyl yn y Tabernacl eleni yn ôl ein harfer. Serch hynny, byddai'n braf medru cynnal oedfa rithiol gyda'r plant a'r pobl ifanc un bore Sul, ac un gyda'r oedolion ar Sul arall. Beth am i chi ddechrau meddwl am eitemau i'w recordio dros yr wythnosau nesaf fel y gellir eu coladu'n ffilm Nadolig – cerddi, caneuon, eitemau offerynnol, storïau, delweddau – beth bynnag sy'n bosib i osod naws priodol llawn cariad a gobaith wrth ddathlu Gŵyl y Geni? Fe fyddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am y trefniant yn y rhifyn nesaf, felly yn y cyfamser ewch ati i ddechrau meddwl am gyfraniadau posib.

Ymateb Rhyfeddol

Profiad anhygoel oedd cerdded i mewn i'r capel fore lau Tachwedd 12^{fed} a gweld cymaint o roddion dillad, dillad gwely, a danteithion Nadolig wedi cronni mewn byr amser, ar ddiwrnod cyntaf y casgliadau. Diolch yn fawr i chi unwaith eto am eich haelioni a'ch brwdfrydedd.

Bydd y casgliadau'n parhau, ac mae'r manylion yma yn y Ddolen ac ar wefan y capel www.tabernacl.org

Mae'n ffrainc i ni i gyd gael rheswm mor anrhydeddus dros agor drysau'r capel unwaith eto.

DIOLCH YN FAWR IAWN

John Llew ac Ann Dwynwen, ar ran y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol.

Gair Byr o'r Bwrdd

Nos Fawrth 3 Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfod olaf Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eleni oni bai bod angen galw cyfarfod brys ym mis Rhagfyr. Wrth gyfarch yr aelodau ar gychwyn y cyfarfod, mynegodd Eluned, Cadeirydd y Bwrdd, y siom a rannwyd gan bob un o'r aelodau, sef bod cyfyngiadau'r cyfnod clo byr wedi ein gorfodi i ddychwelyd i'r drefn o gyfarfod yn rithiol. Gan nad oedd modd cynnal trafodaethau llawn mor ystyrlon trwy gyfarfodydd o'r fath, roedd parodrwydd yr aelodau i gyfrannu sylwebaethau adeiladol i'r materion dan sylw wedi bod yn bwysig iawn. Ychydig a feddyliai hi y byddai ei chadeiryddiaeth mor wahanol i'r norm, ond serch hynny bu adegau cadarnhaol hefyd, megis y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth. Gwerthfawrogi'n fawr iawn barodrwydd y rhai fu'n parhau â gwaith yr eglwys yn ystod y cyfnod hwn ar ein rhan.

Roedd yn anochel dan yr amgylchiadau, gyda chynifer o drigolion Rhondda Cynon Taf wedi derbyn canlyniad positif i brawf Covid-9 mor arswydus o uchel, i'r Bwrdd dderbyn ei bod yn annhebygol iawn y gellir ail-agor drysau'r Tabernacl cyn y flwyddyn newydd.

Gan mai tair blynedd yw hyd tymor pob Cyfarwyddwr, hwn oedd cyfarfod olaf pedwar ohonynt, sef Eluned, Siân, Arwyn a Rhiannon. Felly manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr yn ystod eu tymor, ac yn arbennig felly Eluned am ei harweiniad doeth a hynod o effeithiol a chydwybodol am gyfnod o ddwy flynedd. Roedd Eluned hiithau yn ei thro am ddymuno'n dda i'w holnydd ac i holl aelodau'r Bwrdd.

CAPEL Y TABERNACL CYF.

ENWEBU CYFARWYDDWYR

Mae angen o leiaf **PEDWAR CYFARWYDDWR NEWYDD** i'r Bwrdd gan fod tymor 4 o'r aelodau yn dod i ben eleni.

Dyddiad Cau:

Dydd Llun 16 Tachwedd 2020

Dyma'r Undeb

Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf cylchgrawn chwarterol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, *Dyma'r Undeb*. Ynndo ceir amrywiaeth o gyfraniadau, gan gynnwys adroddiadau o weithgareddau'r Undeb dros y misoedd diwethaf.

Yn rhifyn mis Hydref mae cyfraniadau gan y Parchg. Jill-Hailey Harries, Llywydd yr Undeb, a'r Parchg. Dyfrig Rees, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ill dau'n bwrw golwg yn ôl yn gyntaf ar brofiadau digynsail y flwyddyn 2020, cyn symud ymlaen ar sail profiadau'r flwyddyn i ail-ystyried ein cyfrifoldeb fel eglwysi a'n dulliau o weithredu. Mae'r Llywydd yn cloi trwy ddweud: '*Nid yw'r neges yn newid nac yn un newydd, ond mae'r ffordd rydyn ni'n ei gweithredu a'i chyflwyno'n gorfod bod yn newydd.*'

Ymhlith y cyfraniadau eraill ynndo mae adroddiad llawn ar waith y prosiectau ym Madagasgar sydd wedi elwa ar Apêl yr Undeb y llynedd, erthygl yn dwyn y teitl 'Dementia ac effaith greulon COVID' gan Emlyn Davies, sy'n adrodd am ymgyrch yr Undeb i roi arweiniad i'r eglwysi sut y gellid mynd ati i gynnig cymorth gwerthfawr i'r dioddefwyr a'u teuluoedd. Hefyd ceir adroddiad ar y Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd gan Fiona Gannon a 'Cwm a'r Undeb' gan Jeff Williams.

Mae'n werth i chi darllen yr eitemau hyn i gyd trwy droi i'r adran 'Newyddion' a welir ar wefan yr Undeb, annibynwyr.org. Rhowch wybod os hoffech weld copi caled o'r cylchgrawn gan fod dau gopi wedi eu hanfon i'r Tabernacl.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

11 o'r gloch fore Sul 29 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfod dros Zoom

**Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch
ymuno â'r cyfarfod yr wythnos nesaf.**

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.*

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

- HELPU POBL DDIGARTREF

Ar ôl trafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, mae John Llew wedi cael ar ddeall bod cyllid ganddyn nhw i sicrhau cartref, dillad a nwyddau i'r bobl ifanc fydd yn derbyn ein talebau, ond maen nhw'n bryderus iawn am sefyllfa llawer o'r bobl ddigartref yn yr ardal a byddent yn falch o gael ein help. Bydd John yn cydlynu apêl am ddillad, dillad gwely a nwyddau hylendid ar eu cyfer, ac yn eu casglu yn y capel.

Bydd modd i chi ddod â'ch cyfraniadau i'r capel ar foreau lau rhwng 10 a 12 o'r gloch.

- BWYD A DANTEITHION NADOLIG

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn un o elusennau'r Tabernacl eleni, ac fe fyddan nhw'n derbyn cyfraniad ar ddiwedd y flwyddyn. O drafod gyda'r elusen, mae John Llew yn deall y bydden nhw hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadoligaidd (bwyd sych, bisgedi, siocledi ac ati), heb anghofio y bydd llawer o blant yn eu llochesi dros y Nadolig.

Mae croeso i chi ddod â chyfraniadau i'r capel ar foreau lau rhwng 10–12, yr un pryd ag y cesglir nwyddau a dillad i bobl ddigartref. Dyw Cymorth i Ferched ddim yn cael derbyn nwyddau eraill oherwydd Covid-19, gan y byddai heintio yn eu gorfodi i gau'r llochesi. Ymddiheuriadau am eich llethu â cheisiadau, ond fe fyddai'n resyn colli cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl sydd mewn sefyllfa amhosib o anodd.

- TALEBAU NADOLIG

Mae hi'n amser unwaith eto i ni feddwl am helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn dod ag ychydig o ysbryd y Nadolig i'w bywydau, yn enwedig â'r pandemig yn gwneud eu hamgylchiadau'n anoddach.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni hefyd am anrhegion Nadolig i blant bach anghenus sy dan eu gofal, gan na allan nhw gasglu teganau fel y cyfryw oherwydd perygl Covid-19. Er na allwn ni gynnal casgliad teganau, fe allwn ledaenu ein casgliad talebau er mwyn helpu i ariannu ymgyrch prynu teganau y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ganlyniad, bydd ein casgliad talebau ni yn helpu plant bach yn ogystal â phobl ifanc eleni, fel ein bod yn gwneud ein gorau i gynnal ein lefel arferol o gymorth yr adeg hon o'r flwyddyn, yng ngwir ystyr y Nadolig. Bydd y casgliad yn weithredol tan ddiwedd mis Tachwedd. Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu:

Anfon siec yn daladwy i **Capel y Tabernacl Cyf.** at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU gyda nodyn yn cynnwys eich enw a 'Talebau Nadolig'.

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72 Rhif cyfrif 03607499 gan gynnwys eich enw a nodi 'Talebau Nadolig'.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich haelioni dros y misoedd diwethaf.